

### Eitem: 07

#### Teitl: Adroddiad ar Ddogfennau Wedi'u Selio

<b>Gweithredu / Action required</b>	I'w gadarnhau gan y Bwrdd
<b>Amseru / Timing</b>	24ain Gorffennaf 2024
<b>Argymhelliad / Recommendation</b>	Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r adroddiad hwn ar y defnydd o sêl gyffredin Llais ers diwedd Ebrill 2024, yn dilyn cymeradwyaeth y weithdrefn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod Ebrill 2024.
<b>Risg / Risk</b>	Os na fydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiad hwn. Bydd hyn yn peri risg i Llais weithredu neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol a'i Reolau Sefydlog ei hun.
<b>Cyllid / Finance</b>	Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i gadarnhau'r adroddiad hwn.
<b>Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective</b>	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.  Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd o waith Llais ac felly, cyflawni pob amcan allweddol.
<b>Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity &amp; Inclusion</b>	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llais.
<b>Cyfathrebu / Communications</b>	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: <b>Mewnol:</b> ein pobl <input checked="" type="checkbox"/>

	<b>Allanol:</b> ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/> <b>Allanol:</b> enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>	
<b>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</b>	Prif Weithredwr	
<b>Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions</b>	Dyma'r adroddiad cyntaf lle gofynnwyd i'r Bwrdd gadarnhau'r defnydd o'r sêl gyffredin. Mae'n adeiladu ar gymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Ebrill i ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer defnyddio sêl gyffredin.	
<b>Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting</b>	Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro	
<b>Dyddiad / Date</b>	11 <sup>eg</sup> Gorffennaf 2024	
<b>Cefndir / Background</b>		
<p>Cyflwynir yr adroddiad hwn er dibenion cydymffurfio a sicrwydd er mwyn sicrhau bod Llais yn cyflawni gofynion ei Reolau Sefydlog mewn perthynas â dogfennau y cytunwyd arnynt o dan y sêl gyffredin.</p> <p>Defnyddir sêl gyffredin Llais yn bennaf i selio dogfennau cyfreithiol megis trosglwyddiadau tir, cytundebau prydles a chontractau eraill, lle bo angen.</p> <p>O dan ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog, rhaid i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig selio dogfennau ar ran Llais.</p> <p>Seliwyd dwy ddogfen rhwng 25<sup>ain</sup> Ebrill 2024 a 30<sup>ain</sup> Mehefin 2024, a amlinellir isod:</p>		
<b>Dyddiad:</b>	<b>Manylion y Ddogfen:</b>	<b>Llofnodwyr:</b>
2 <sup>il</sup> Mai 2024	Adnewyddu Prydles gyda Triang Developments Limited ar gyfer Uned 1, Parc Busnes Wilkinson, Wrecsam ar gyfer Swyddfa Ranbarthol Gogledd Cymru.	Medwin Hughes, Cadeirydd Alyson Thomas, Prif Weithredwr Tyst: Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
6 <sup>ed</sup> Mehefin 2024	Prydles gydag LMN One Limited ac LMN Two Limited	Medwin Hughes, Cadeirydd

	<p>ar gyfer Prydles Swyddfa Ranbarthol Gwent. Prydles Ystafelloedd 21, 22, 23, 24, 31 a 32, Tŷ Raglan Parc Llantarnam, Cwmbrân, Gwent.</p>	<p>Alyson Thomas, Prif Weithredwr Tyst: Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro</p>
--	--	--

## Manylion / Detail

Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r ddau achos a amlinellir uchod lle defnyddiwyd y sêl gyffredin. Mae'r achosion hyn wedi'u dogfennu ac mae cofnodion selio wedi'u llofnodi, eu sganio a'u cadw mewn cofrestr selio electronig.